



Chartered  
Institute of  
Housing  
Cymru

# CIPLUN O'R SECTOR:

## CYMWYSTERAU YNG NGHYMURU

## Cefndir

Ym mis Rhagfyr 2022 cyhoeddwyd yr Adolygiad Tai Cymdeithasol Gwell yn Lloegr. Amlinellodd yr adroddiad hwn ganfyddiadau adolygiad o dai cymdeithasol yn Lloegr a sefydlwyd gan y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol a'r Sefydliad Tai Siartredig (CIH). Gwnaeth y panel annibynnol nifer o argymhellion ar gyfer newid gan gynnwys hyrwyddo rôl y swyddog tai traddodiadol fel cyfle cyflogaeth a gefnogir ac a werthfawrogir gyda rhaglen hyfforddi a datblygu parhaus a gydnabyddir gan CIH<sup>1</sup>.

At hynny, amlinellodd yr ysgrifennydd gwladol dros lefelu i fyny, tai a chymunedau, Michael Gove, welliannau i'r Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) i ymchwilio i ffyrdd o broffesiynoli'r sector, gan gynnwys ei wneud yn orfodol i reolwyr tai cymdeithasol ennill cymwysterau proffesiynol gan ddod â thai cymdeithasol yn agosach at yr un lefel â sectorau eraill sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen, gan gynnwys gwaith cymdeithasol, addysgu, a gwasanaethau iechyd a gofal.

Mae Deddf Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) 2023 ddilynol yn diffinio rheolwr tai perthnasol fel: Uwch weithredwr tai neu uwch reolwr tai sy'n gyfrifol am reoli darpariaeth gwasanaethau o ddydd i ddydd yng nghyswllt rheoli tai cymdeithasol a bod yn un o uwch reolwyr y sefydliad<sup>2</sup>.

Mae'r Ddeddf Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) 2023 yn mynd ymlaen i'w gwneud yn ofynnol i unigolion a ddifinnir fel rheolwr tai perthnasol dderbyn cymhwyster rheoli tai ar lefel briodol sy'n cyfateb i Dystysgrif Lefel 4 neu Ddiploma Lefel 5 mewn tai, neu radd sylfaen gan CIH. Amcan y cymhwyster hwn yw darparu gwybodaeth a dealltwriaeth dechnegol i unigolion ar draws ystod eang o arferion tai rheng flaen ar lefel weithredol.

Er nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i wneud cymwysterau tai'n orfodol ar gyfer rheolwyr tai perthnasol, mae cam gweithredu yn y cynllun gweithredu rhoi diwedd ar ddigartrefedd i ddatblygu gweithlu cydnerth a gwerthfawr sy'n cael ei gydnabod am eu harbenigedd a fyddai'n cynnwys datblygu fframwaith hyfforddi a datblygu<sup>3</sup>. Mae CIH Cymru wedi cynnal ymchwil i sefydlu cyfansoddiad presennol rheolwyr tai perthnasol o ran cymwysterau fel rhan o'n hagenda proffesiynoldeb ac i amlygu lefel y sgil a'r wybodaeth sydd eisoes yn bodoli yma yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio rhai o'r prif dueddiadau yn yr ymatebion a dderbyniom.

## Trosolwg o'r arolwg

Ar hyn o bryd mae 47 o sefydliadau yng Nghymru sy'n gyfrifol am ddarparu a rheoli tai cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys 36 o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac 11 o awdurdodau lleol sy'n dal stoc. At ei gilydd, ymatebodd 26 y cant o'r sefydliadau hyn i'r arolwg. Gan na ofynnwyd cwestiwn penodol am y math o sefydliad, ni allwn bennu'r gyfradd ymateb ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol sy'n dal stoc yn unig. Er i ni gydnabod bod hon yn gyfradd ymateb isel, mae'r data a dderbyniwyd yn rhoi rhywfaint o fewnwelediad i lefel y cymwysterau tai yma yng Nghymru a'r buddsoddiad arfaethedig yn y dyfodol mewn cymwysterau ar gyfer gweithwyr tai proffesiynol yma yng Nghymru. Rydym hefyd wedi nodi cwestiynau ychwanegol yr hoffem eu gofyn i'r sector fel rhan o'r darn hwn o waith yn ymwneud yn benodol â maint y sefydliad a sut mae cymwysterau'n cael eu hariannu ar hyn o bryd.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau'r arolwg ynghyd â rhai argymhellion ar gyfer y sector ynghylch lefel bresennol y cymwysterau a sut y gallwn gyrru ein datblygiad proffesiynol ymlaen gan gynnwys darparu cymwysterau ar gyfer gweithwyr tai proffesiynol.

## Argymhelliad un

Dylai arolygon o gymwysterau yn y dyfodol gynnwys cwestiwn ar faint y landlord cymdeithasol cofrestredig neu faint o bobl sydd wedi'u cyflogi yn adran tai'r awdurdod lleol. Dylid cynnwys cwestiwn hefyd ar sut mae cymwysterau tai'n cael eu hariannu ar hyn o bryd.

<sup>1</sup>Yr Adolygiad Tai Cymdeithasol Gwell. [https://s41584.pcdn.co/wp-content/uploads/BSHR\\_Report\\_FINAL\\_embargoed\\_until\\_Tues13thDec.pdf](https://s41584.pcdn.co/wp-content/uploads/BSHR_Report_FINAL_embargoed_until_Tues13thDec.pdf)


<sup>2</sup>Safonau yn ymwneud â chymhwysedd ac ymddygiad. <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2023/36/section/21/enacted>

<sup>3</sup>Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun gweithredu lefel uchel 2021-2026. <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-11/rhoi-diwedd-ar-ddigartrefedd-cynllun-gweithredu-lefel-uchel-2021-i-2026.pdf>

# Pa rolau y mae cydweithwyr sy'n cael eu hystyried yn rheolwyr tai perthnasol yn eu cyflawni?

Nododd yr arolwg fod mwyafrif y rheolwyr tai perthnasol wedi'u cyflogi mewn rôl pennaeth tai fel y dangosir yn ffigur un.

Ffigur 1: Rolau a gyflawnir gan reolwyr tai perthnasol



Nododd ein hymatebwyr hefyd, er mai rheolwyr cymdogaeth neu swyddogion tai ardal fyddai'r swyddogion sy'n rheoli eiddo'r sefydliad o ddydd i ddydd, nid ydynt bob amser yn rhan o'r uwch dîm rheoli. Byddai hyn felly'n golygu nad ydynt yn dod o dan y diffiniad o reolwr tai perthnasol. Ac eto, argymhellodd yr adolygiad tai cymdeithasol gwell y dylid hyrwyddo rôl y swyddog tai traddodiadol ynghyd â rhaglen gydnabyddedig o hyfforddiant a datblygiad parhaus drwy CIH. Mae'n ymddangos bod diffyg cyfatebiaeth rhwng yr argymhelliad a'r diffiniad o reolwr tai perthnasol.

## Argymhelliad dau

Sicrhau bod y diffiniad o reolwr tai perthnasol yn cynnwys unigolion sy'n gyfrifol am reoli tai cymdeithasol o ddydd i ddydd hyd yn oed os nad ydynt yn rhan o uwch dîm rheoli sefydliad. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl swyddogion tai yng Nghymru'n cael eu cynnwys yng ngofyniad y cymhwyster, gan sicrhau cyfatebiaeth agosach i argymhelliad yr Adolygiad Tai Cymdeithasol Gwell.

## Faint o gydweithwyr sydd â chymhwyster tai?

Roedd dwy ran i'r cwestiwn hwn. Gofynnodd y cyntaf i ymatebwyr faint o gydweithwyr yn y sefydliad sydd â chymhwyster tai. Nododd yr arolwg fod gan 171 o unigolion gymhwyster tai. Fodd bynnag, gan na ofynnodd yr arolwg am gyfanswm y cydweithwyr yn y sefydliad, ni allwn wneud unrhyw ddadansoddiad pellach ynghylch y gyfran o'r gweithlu tai sydd â chymhwyster tai.

Gofynnodd ail ran y cwestiwn faint o gydweithwyr sydd â chymhwyster tai fyddai hefyd yn cael eu diffinio fel rheolwr tai perthnasol. Amlinellodd yr arolwg yr oedd llai na hanner y cydweithwyr hynny â chymhwyster tai mewn 75 y cant o sefydliadau mewn rolau a oedd yn bodloni'r diffiniad o reolwr tai perthnasol. Bydd angen gwneud mwy o waith i bennu'r rolau y mae cydweithwyr â chymhwysterau tai yn eu cyflawni ar hyn o bryd. A ydynt mewn rolau sy'n ymwneud â rheoli eiddo o ddydd i ddydd ond heb gael eu cynnwys fel rhan o uwch dimau rheoli neu a yw sefydliadau'n buddsoddi yn eu gweithlu i alluogi dilyniant gyrfya yn y dyfodol?

### Argymhelliad tri


Ar gyfer arolygon yn y dyfodol dylid cynnwys cwestiwn ar ba fath o rôl y mae cydweithwyr â chymhwysterau tai yn ei chyflawni ar hyn o bryd er mwyn asesu effeithiolrwydd y diffiniad presennol o reolwr tai perthnasol. A oes angen ei ehangu oherwydd sut y caiff rolau eu diffinio yng Nghymru?

## A yw cydweithwyr mewn rolau rheoli tai perthnasol heb gymhwyster tai yn ymgymryd â chymhwyster tai ar hyn o bryd?

Nododd yr arolwg fod 58 y cant o gydweithwyr mewn rolau rheoli tai perthnasol heb gymhwyster tai yn dilyn cymhwyster tai ar hyn o bryd fel y dangosir yn ffigur dau.

Ffigur 2: Cyfran y gweithwyr mewn rôl rheoli tai perthnasol heb gymhwysterau tai sy'n ymgymryd â chymhwyster tai ar hyn o bryd

**Yn ymgymryd â chymhwyster tai**  
**Heb ymgymryd â chymhwyster tai**



Ar gyfer y 58 y cant sy'n ymgymryd â chymhwyster tai, mae pob un ohonynt yn dilyn cymhwyster a achredir gan CIH ar Lefelau 3, 4 neu 5.

# Os yw cydweithwyr heb unrhyw gymwysterau tai wedi symud i rôl rheolwr tai perthnasol trwy ddyrchafiad mewnol, a ddisgwylir wedyn iddynt ennill cymhwyster tai?

Dangosodd yr arolwg mai dim ond 25 y cant o gydweithwyr a ddyrchafwyd i rôl rheoli tai berthnasol heb gymhwyster tai a fyddai'n cael eu disgwyl i ennill cymhwyster tai. Rhoddodd rhai ymatebwyr nifer o resymau pam nad oedd ennill cymhwyster yn ddisgwyliad:

*"Nid yw ennill cymhwyster yn ddisgwyliad ond bydd pob rheolwr yn barod i wella sgiliau a chymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus, fodd bynnag, mae cyfyngiadau ar gapasiti'n aml yn rhwystro hynny."*

*"Rydym wrthi'n adolygu ein hymagwedd at ddisgwyliadau o ran dyrchafiad mewnol mewn perthynas â chymwysterau. Fodd bynnag, nid yw cymwysterau tai Lefel 4, Lefel 5 a lefel gradd bob amser wedi bod ar gael yn rhwydd yng Ngogledd Cymru."*

Rydym wedi clywed gan y sector fod cyfyngiadau ar gapasiti yn aml wedi bod yn rhwystr i gydweithwyr allu dilyn cymwysterau. Yn aml mae hyn yn golygu diwrnod allan o'r sefydliad ac oherwydd adnoddau cyfyngedig gall hyn fod yn anodd. Amlygodd ein ciplun diweddaraf o'r sector yr effaith y mae llai o adnoddau yn ei chael ar ddarparu gwasanaethau. Gyda 43 y cant o'r ymatebwyr yn nodi llwythi gwaith uchel fel y pwysau allweddol ar ddarpariaeth gwasanaethau, efallai nad yw'n syndod bod cyfyngiadau ar gapasiti yn effeithio ar fynediad cydweithwyr at

## Argymhelliad pedwar

Os yw cymwysterau i fod yn orfodol yng Nghymru bydd angen cyllid digonol nid yn unig i alluogi cydweithiwr i ddilyn cymhwyster ond hefyd i alluogi sefydliad i gynyddu nifer y bobl y gallant eu cyflogi. Bydd hyn yn ei dro yn helpu gostwng llwythi gwaith i lefelau rhesymol gan leihau'r effaith ar ddarpariaeth gwasanaethau a helpu goresgyn cyfyngiadau ar gapasiti sydd i'w gweld yn rhwystr i DPP.

## Pa angen neu alw sydd yng Nghymru ar hyn o bryd am brentisiaethau lefel uwch mewn tai?

Amlygodd dros 90 y cant o'r ymatebwyr y ffaith bod angen prentisiaethau lefel uwch yng Nghymru. Mae'r galw hwn yn cael ei greu'n rhannol drwy strategaethau datblygu proffesiynol eu sefydliadau eu hunain neu oherwydd mai dim ond un cyfleuster addysgol sy'n darparu hyn yng Nghymru ar hyn o bryd. Roedd diffyg argaeledd ar draws Cymru'n thema gyffredin.

## Argymhelliad pump

Os ydym am fandadu neu hyrwyddo cymwysterau tai yng Nghymru, mae angen i ni sicrhau bod y cymwysterau ar gael ar draws Cymru nid dim ond ar-lein neu mewn canolfan ddysgu mewn un rhan o Gymru. Bydd angen ystyried hyn ar gyfer pob lefel o gymwysterau tai.

## Yn eich barn chi, beth fyddai gwerth prentisiaeth lefel uwch mewn tai i unigolion a sefydliadau?

Cytunodd yr ymatebwyr fod gwerth sylweddol i ddarparu prentisiaethau lefel uwch. Dyma'r rhesymau cyffredin a nodwyd:

- Bydd yn proffesiynoli'r rôl tai gan hyrwyddo tai fel gyrfa
- Maent yn darparu sylfaen dda ym maes tai
- Mae'n helpu dilyniant gyrfa
- Mae'n galluogi unigolion i ennill profiad ymarferol hanfodol yn ogystal ag ennill cymhwyster.

## A fyddai eich sefydliad yn cefnogi unigolion i gwblhau prentisiaeth lefel uwch mewn tai?

Byddai'r holl ymatebwyr i'r arolwg yn cefnogi unigolion i gwblhau prentisiaeth lefel uwch mewn tai. Er, roedd yna rai cafeatau i hyn.

*"Gyda dros 50 o gydweithwyr a allai fod angen cymhwyster tai ni fyddai modd i ni eu cefnogi'n llawn oni bai bod cyllid yn cael ei ddarparu."*

*"Nid ydym am i hyn gael ei orfodi ac yna bod yn ymarfer ticio blychau'n unig er mwyn dweud bod hyfforddiant wedi'i gwblhau. Mae angen hefyd iddo wella gwasanaethau neu gymhwysedd y gweithlu."*

## Sut ydych chi'n darparu datblygiad proffesiynol parhaus o fewn eich sefydliad ar hyn o bryd?

Byddai'r mwyafrif o ymatebwyr yn defnyddio cynlluniau datblygu personol fel sail i bennu pa DPP y byddai ei angen ar unigolion. Byddai'r rhain wedyn yn cael eu diweddarau'n rheolaidd, a byddai unigolion yn cael eu hannog i ychwanegu eu nodau hyfforddi a datblygu eu hunain ar gyfer y flwyddyn. Byddai'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn defnyddio hyfforddiant mewnol neu'n gweld presenoldeb mewn cynadleddau fel cyfleoedd dysgu allweddol sy'n rhan o DPP unigolyn.

Dim ond 17 y cant o ymatebwyr a amlygodd hyfforddiant CIH yn benodol fel rhan o DPP eu sefydliadau. Gallai hyn fod yn rhannol oherwydd mai dim ond un ganolfan ddysgu sy'n darparu cymwysterau wyneb yn wyneb yng Nghymru ar hyn o bryd. Er bod academi tai CIH yn darparu dysgu ar-lein nid yw'n ymddangos yn opsiwn o ddewis i'r rhai a ymatebodd i'r arolwg.

## Argymhelliad chwech

Dylai CIH Cymru weithio gydag Academi Tai CIH i bennu nifer y dysgwyr yng Nghymru y byddent yn eu cofrestru bob blwyddyn i weld a oes angen gwneud mwy o waith i hyrwyddo argaeledd dysgu ar-lein yng Nghymru.

# A yw eich sefydliad yn hyrwyddo ac yn cefnogi ennill cymwysterau rheoli tai a/neu ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Roedd pawb a ymatebodd i'r arolwg yn hyrwyddo hyfforddiant ond nid oedd pob un yn gweld hyn fel hyrwyddo DPP o fewn eu sefydliad, yn hytrach roeddent yn ystyried cymwysterau dim ond fel rhywbeth sy'n cyfrannu'n weithredol at DPP. Mae'n amlwg bod gan wahanol sefydliadau ddiffiniadau gwahanol o beth yw DPP.

I gefnogi unigolion o fewn eu sefydliad mae rhai sefydliadau yn y broses o ddatblygu prosesau i gadw cofnod o'r oriau DPP a gwblheir gan unigolion bob blwyddyn. Fodd bynnag, nid yw'n glir a gaiff hyn ei gymharu wedyn â'r nodau DPP a osodir fel rhan o'u cynlluniau datblygu personol.

## Casgliad

Yn gyffredinol, mae rhywfaint o gefnogaeth dros gymwysterau yng Nghymru er nad oes gofyniad penodol i unigolion ennill cymwysterau os cânt eu dyrchafu i rôl rheolwr tai perthnasol heb gymhwyster tai. Er gwaetha'r gefnogaeth mae rhai rhwystrau hefyd, o gyfyngiadau ar gapasiti i ddiffyg canolfannau dysgu ar draws Cymru. Bydd angen mynd i'r afael â hyn os bydd Cymru'n symud tuag at wneud cymwysterau'n orfodol.

Mae angen edrych hefyd ar sut rydym yn mesur DPP yng Nghymru gan fod rhai'n gweld DPP fel dim ond ennill cymhwyster tra bod sefydliadau eraill yn cymryd golwg gyfannol ac yn gweld DPP fel unrhyw beth sy'n gwella gwybodaeth unigolyn trwy gyfleoedd hyfforddi.

Mae yna hefyd lefel o ddryswch ynghylch pa rolau sy'n cyfateb i'r diffiniad o reolwr tai perthnasol. Teimlai rhai ymatebwyr y byddai swyddogion tai'n cael eu cynnwys ond oherwydd y ffordd yr ysgrifennwyd y diffiniad ni fyddent yn cael eu cynnwys gan nad ydynt yn aml yn uwch reolwyr. Fel y cyfryw ni fyddent yn dod o dan y gofyniad am gymwysterau. Mae hyn yn cyferbynnu â'r adolygiad tai gwell a argymhellodd gwella sgiliau'r rhai sy'n gyfrifol am reoli tai o ddydd i ddydd.

Os ydym ni yng Nghymru eisiau symud tuag at gymwysterau gorfodol, mae angen i ni sicrhau bod y lefel gywir o gyllid ar gael yn ogystal â sicrhau bod y rolau cywir yn cael eu cynnwys fel rhan o broffesiynoli tai yma yng Nghymru.

## Argymhellion

- **Argymhelliad un:** Ar gyfer yr arolwg nesaf dylid cynnwys cwestiwn ar faint y sefydliad neu faint o bobl a gyflogir yn yr awdurdod tai lleol ynghyd â chwestiwn ar sut mae cymwysterau tai'n cael eu hariannu gan y sefydliad neu awdurdod tai lleol ar hyn o bryd.
- **Argymhelliad dau:** Sicrhau bod y diffiniad o reolwr tai perthnasol yn cynnwys unigolion sy'n gyfrifol am reoli tai cymdeithasol o ddydd i ddydd hyd yn oed os nad ydynt yn rhan o uwch dîm rheoli sefydliad. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl swyddogion tai yng Nghymru'n cael eu cynnwys yng ngofyniad y cymhwyster, gan gyfateb yn agosach i argymhelliad yr adolygiad tai cymdeithasol gwell.
- **Argymhelliad tri:** Ar gyfer arolygon yn y dyfodol dylid cynnwys cwestiwn ar ba fath o rôl y mae cydweithwyr â chymwysterau tai yn ei chyflawni ar hyn o bryd er mwyn asesu effeithiolrwydd y diffiniad presennol o reolwr tai perthnasol. A oes angen ei ehangu oherwydd sut y caiff rolau eu diffinio yng Nghymru?
- **Argymhelliad pedwar:** Os yw cymwysterau i fod yn orfodol yng Nghymru bydd angen cyllid digonol nid yn unig i alluogi cydweithiwr i ddilyn cymhwyster ond hefyd i alluogi sefydliad i gynyddu nifer y bobl y gallant eu cyflogi. Bydd hyn yn ei dro yn helpu gostwng llwythi gwaith i lefelau rhesymol gan leihau'r effaith ar ddarpariaeth gwasanaethau a helpu goresgyn cyfyngiadau ar gapasiti, sydd i'w gweld yn rhwystr i ddatblygiad proffesiynol parhaus.
- **Argymhelliad pump:** Os ydym am fandadu neu hyrwyddo cymwysterau tai yng Nghymru, mae angen i ni sicrhau bod y cymwysterau ar gael ar draws Cymru nid dim ond ar-lein neu mewn canolfan ddysgu mewn un rhan o Gymru. Bydd angen ystyried hyn ar gyfer pob lefel o gymwysterau tai.



**Chartered  
Institute of  
Housing**  
Cymru



**Cerys Clark CIHCM**

Rheolwr polisi a materion cyhoeddus  
CIH Cymru



**Matthew Dicks CIHCM**

Cyfarwyddwr cenedlaethol  
CIH Cymru



**Liz Williams**

Myfyriwr  
Prifysgol Metropolitan Caerdydd